

# Nodiadau paratoadol i athrawon ar gyfer ymweliadau ysgol â Chanolfan y Dechnoleg Amgen

## Ymweliad ymlaen llaw gan Athrawon

Yn ddelfrydol, dylai'r athro/athrawes sy'n trefnu'r ymweliad ddod i'r Ganolfan ei hun yn gyntaf, yn arbennig os nad yw wedi bod yno o'r blaen. Gellir gofyn am docynnau cyfarch sydd ar gael o'r adran addysg (01654 705983).

Mae'r safle yn datblygu drwy'r amser, felly os nad ydych wedi ymweld â ni o'r blaen, gofynnwch beth sy'n newydd. Mae'n bosib bod eich taflenni gwaith wedi dyddio a'n bod ninnau'n cynnig hyfforddiant newydd.

## Mynnwch hyfforddiant am ddim

Mae staff addysgol Canolfan y Dechnoleg Amgen yn cynnig sgysiau byr rhagarweiniol am ddim (ynghyd ag amryw o sgysiau eraill am ddim ar hyn o bryd). Mae'r **sgwrs ragarweiniol** yn ateb nifer o ddibenion. Bydd yn amlinellu'r cefndir trwy edrych ar broblemau amgylcheddol ac yn esbonio rhywfaint pam ein bod ni'n gwneud pethau mewn ffordd arbennig. Ymddengys bod profiadau'r disgyblion wrth ymweld â Chanolfan y Dechnoleg Amgen yn cael eu cyfoethogi os ydynt wedi cael cyswllt gydag aelod o staff. Yn ddi-os, mae cyfarfod â rhywun a chael gwybod beth a ddisgwylir gennym o safbwynt sbwriel, rhedeg o gwmpas ac yn y blaen, yn gwella ymddygiad grwpiau. Cyfoethogir eu profiad os gellir dangos iddynt nad yw'r Ganolfan yn safle amheronol. Mae hefyd yn gyfle da iddynt gael holi cwestiynau.

## Dillad

Ceir cawodydd trymion ar brydiau yng Nghanolbarth Cymru ac oherwydd bod y rhan helaeth o'r safle yn yr awyr agored dylai disgyblion wisgo'n addas ar gyfer y tywydd. At hyn, bydd angen bagiau plastig arnynt er mwyn iddynt gadw'u clipfyrdau a'u nodiau yn sych.

## Cinio a.y.y.b.

Mae safleoedd picnic ar gael yma lle gellir bwyta tocyn bwyd.

Mae yma fwyty lle gall y disgyblion brynu byrbrydau, cacennau a diodydd, ond os yw eich grŵp yn dymuno bwyta pryd canol dydd yn y bwyty, **rhaid archebu cinio** ymlaen llaw.

## Cymhareb Athro/disgybl

Bydd angen rhywfaint o arolygaeth ar y disgyblion ar y safle er mwyn eu hatgoffa i fod yn ofalus gyda'r pethau sy'n cael eu harddangos, i daflu eu sbwriel yn y biniau cywir ac i beidio treulio'u holl amser ar y maes chwarae antur, ond hefyd er mwyn iddynt fedru trafod yr arddangosfeydd gyda'u hathrawon. Rydym yn argymhell cymhareb o 1-6 yn achos disgyblion cynradd ac 1:10 yn achos disgyblion uwchradd.

## Gwaith ar y safle i ddisgyblion

Mae'n bwysig iawn bod gan y disgyblion ganolbwynt i'w hymweliad. Gellir sicrhau hyn drwy ddarparu taflenni gwaith, trwy osod tasg benodol i'w chwblhau ganddynt neu trwy drefnu eu bod yn mynd o amgylch y safle yng nghwmni oedolyn fydd yn medru gofyn cwestiynau er mwyn eu hannog i arsylwi ac i gaffael gwybodaeth. Mae dealltwriaeth ac ysgogiad yn bwysicach na chasglu ffeithiau.

Bydd angen clipfyrdau a phapur arnynt.

## Defnyddio'r taflenni gwaith

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys taflenni gwaith y gellir eu defnyddio ar y safle. Mae pob croeso i chi eu haddasu i gwrdd ag anghenion eich grŵp. Ar ddiwedd pob taflen waith ceir côd sy'n diweddu gyda rhif. Dengys rhif 2 ei fod wedi ei hysgrifennu ar gyfer CA2 a.y.y.b. Ystyr rhif 6 yw Bl. 12/13 neu Addysg Bellach. Defnyddiwyd y system hon er mwyn eich galluogi i fod yn hyblyg wrth roi gwaith i'r disgyblion sy'n addas i'w gallu, heb i chi orfod dileu CA2 neu 3 o'r teitl.

**Mae rhywfaint o'r cynnwys yn gorgyffwrdd** oherwydd bod testunau a themâu yn gorgyffwrdd; bydd eraill yn rhoi mwy o fanylion ar faes arbennig, felly dylech edrych trwyddynt cyn eu dosbarthu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ateb eich gofynion.

Mae nodiadau ategol, gan gynnwys atebion i rai o'r cwestiynau ar gael hefyd, er mwyn cynorthwyo athrawon i fod o gymorth i'w disgyblion wrth iddynt fynd o gwmpas y safle.

## Llawlyfr

Mae Llawlyfr Canolfan y Dechnoleg Amgen yn llawn gwybodaeth gryno a defnyddiol am dechnolegau sydd i'w gweld ar y safle. Yn wir, mae hwn yn ragarweiniad cynhwysfawr i ynni adnewyddadwy, tyfu bwydydd organig ac ymdrin â gwastraff.

## **Beth mae plant yn ei wybod a heb ei wybod**

Erbyn heddiw mae gan rai disgyblion wybodaeth helaeth am faterion yn ymwneud â'r amgylchedd, gwybodaeth sy'n deillio o'u rhieni a rhaglenni teledu, yn ogystal â'r ysgol, ond mae yna bob math o bethau sy'n hollol sylfaenol i ddealltwriaeth o broblemau amgylcheddol a'r dull o'u datrys nad yw disgyblion CA2 yn ymwybodol ohonynt. Nid yw llawer iawn o'r rhain yn destunau y mae'n rhaid eu dysgu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol tra bod eraill yn bethau rydym ni, fel oedolion, yn aml yn cymryd yn ganiataol bod plant yn eu deall heb i ni hyd yn oed eu hystyried.

### **Tanwydd.**

Bydd llawer o ddisgyblion ifanc heb wybod beth yw tanwydd, o ble y daw na sut y gellir ei ddefnyddio.

Dywedodd un "Mae nwy yn dod o'r môr" - heb sylweddoli ei fod yn tarddu o'r dyfnderoedd o dan wely'r môr.

Ymddengys eu bod yn medru deall yn ddigon da pan fydd oedolion yn cyfeirio at **nwy naturiol** yn syml fel 'nwy' ac yna'n mynd ymlaen i sôn am nwyon eraill, rhai ohonynt wrth eu henwau, ond mae yma bosibilrwydd y gallai hyn arwain at ddryswch.

Nid ydynt yn gwybod pa danwydd sy'n cael ei ddefnyddio yn eu **system gwres canolog**. Weithiau, bydd rhai o'r farn mai dŵr yw'r tanwydd oherwydd eu bod yn gwybod fod hwnnw'n cael ei ddefnyddio mewn rhyw fodd.

Y tanwydd a ddefnyddir yn y bws ddaeth â nhw i'r Ganolfan - dywedodd un disgybl mai "dŵr" a ddefnyddid (mae'n bosib ei fod wedi gweld dŵr yn cael ei arllwys i'r system oeri neu iddo dybio mai dŵr oedd y petrol oherwydd ei fod yn hylif) - mae hyn yn gamsyniad anarferol iawn. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol fod ceir yn rhedeg ar betrol a disel.

### **Coed**

Weithiau bydd disgyblion yn dweud fod **pren** yn danwydd ffosil. Mae'n werth treulio ychydig amser yn eu cael i sylweddoli sut mae coed yn rhan o'r darlun mewn perthynas â chynhyrchu CO2 a.y.y.b.

Wrth i goeden dyfu, bydd yn amsugno CO2; wrth iddi gyrraedd ei llawn dwf bydd yn amsugno ac yn gollwng CO2 a phan fydd yn dechrau pydru bydd yr amsugno yn dod i ben ond bydd y goeden yn dal i ollwng CO2. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio coed er mwyn amsugno CO2 yw eu torri i lawr wedi iddynt gyrraedd eu llawn dwf a phlannu coed newydd yn eu lle.

Beth yw'r peth gorau i'w wneud gyda'r pren? Os byddwn yn ei gadw fel pren, trwy ei ddefnyddio mewn adeiladau neu fel dodrefn, yna byddwn yn cloi'r carbon hwnnw ac mae hynny'n beth da. Os byddwn yn ei ddefnyddio fel tanwydd i gymryd lle tanwydd ffosil, yna rydym yn lleihau faint o CO2 sy'n cael ei ryddhau oherwydd bydd y coed newydd yn amsugno'r CO2 sy'n cael ei ryddhau pan fyddwn ni'n llosgi'r rhain. Byddai'n ddiddorol trafod gyda'r disgyblion beth yw effeithiau'r dulliau eraill o ddefnyddio pren a ble bydd y carbon yn debygol o ddod i ben ei daith. (Yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen byddwn naill ai'n ailgylchu papur a cherdyn neu yn ei ddodi mewn pentyrrau compost.)

Mae angen i'r disgyblion sylweddoli na fedrwn blannu ein ffordd allan o'n problemau amgylcheddol. Nid oes digon o dir ar y blaned hon i ni fedru plannu digon o goed er mwyn amsugno'r holl CO2 sy'n cael ei gynhyrchu gennym. Mae pob math o resymau da iawn dros blannu coed ond ni fydd hyn yn cael llawer o effaith ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae gwerth mawr hefyd mewn nifer o wahanol ffyrdd i rai coed yn eu llawn dwf a choed hynafol ac ni ddylid eu torri i lawr yn unig oherwydd nad ydynt bellach mewn gwirionedd yn amsugno CO2.

### **Cynhyrchu Trydan**

Dydyn nhw ddim fel arfer yn gwybod sut y caiff y rhan fwyaf o drydan ei gynhyrchu ym Mhrydain. Dydyn nhw ddim yn gwybod bod glo, olew a nwy naturiol yn cael eu llosgi er mwyn cynhyrchu 70 - 78% ohono.

Yn aml, dydyn nhw ddim yn gwybod bod 20% neu fwy yn cael ei gynhyrchu gan ynni niwclear.

Byddan nhw'n meddwl yn aml fod ynni gwynt neu ynni'r haul (ynni solar) yn gyfrifol am gynhyrchu cryn dipyn o drydan Prydain - o bosib, oherwydd eu bod wedi clywed mai dyma beth fyddan nhw'n ei weld yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen. Mewn gwirionedd, mae ynni dŵr wedi bod yn cynhyrchu tua 2% o drydan Prydain ers degawdau ac mae ynni'r gwynt yn cynhyrchu llai hyd yn oed nag 1% hyd yma.

### **Arbed a chynhyrchu ynni**

Y gwahaniaeth rhwng **arbed ynni** a'r ffyrdd o'i gynhyrchu - byddan nhw'n aml yn dweud fod defnyddio ynni solar, ynni gwynt neu ynni dŵr yn 'arbed' ynni. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosib defnyddio llai o danwydd arall ond nid yw'n arbed ynni, dim ond yn ei gynhyrchu mewn ffordd wahanol.

### **Llygredd Amgylcheddol**

Nid yw'n syndod o gwbl eu bod yn drysu'n lân wrth drafod yr **haen osôn**, yr **effaith tŷ gwydr**, a **glaw asid** a pha nwyon sy'n achosi beth. Rwyf wedi cyfarfod â rhai grwpiau o Fl.6 sy'n ymddangos fel pe bai ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o hyn ac, yn yr achosion hynny, mae gennyf feddwl mawr o'u hathrawon.

Cwrddais ag un disgybl Bl.7 a gredai mai 'Global warning' oedd y term yn Saesneg.

Un dryswch cyffredin iawn yw gwybod mai CO2 yw'r broblem fawr ond wedyn meddwl mai oherwydd ei fod yn niweidio'r haen osôn y mae hynny, yn hytrach na'i fod yn cyfrannu'n fwy na dim arall at yr effaith tŷ gwydr, ac o ganlyniad yn bennaf gyfrifol am y newid yn yr hinsawdd.

Mae'n bwysig bod disgyblion yn sylweddoli nad yw CO2 yn wenwynig nac yn asidig, nad yw'n niweidiol ynddo'i hun, ond yn hytrach, oherwydd y swm mawr rydyn ni'n ei gynhyrchu. Yn wir, heb CO2 ni fyddai unrhyw fywyd ar y Ddaear, oherwydd bod angen CO2 ar blanhigion a heb unrhyw effaith tŷ gwydr byddai'r blaned yn lle rhy oer i ni

## **Panelli Solar**

Mae gan oddeutu 40,000 o gartrefi ym Mhrydain baneli **solar sy'n cynhesu dŵr** ar eu toi. Bydd disgyblion (ac oedolion) yn drysu oherwydd bod cryn dipyn o gyhoedduswydd wedi ei roi'n ddiweddar i gelloedd solar (photofoltyddion) sy'n cynhyrchu trydan oherwydd gelwir parau o gelloedd solar yn 'baneli' yn aml. O ganlyniad, byddant yn cymysgu rhywfaint ar y wybodaeth am y naill a'r llall.

Mae celloedd solar yn ffordd ddrud iawn o gynhyrchu trydan ac ambell gartref yn unig ym Mhrydain sy'n eu defnyddio.

Mae paneli solar sy'n gwresogi dŵr, - bydd disgyblion mae'n siŵr wedi eu gweld ar doi tai (mae'n bosib eu bod wedi meddwl mai ffenestri yn llofft y tŷ ydynt) - yn cynhesu dŵr yn uniongyrchol ac nid oes ganddynt ddim i'w wneud â thrydan. Maent hefyd yn llawer mwy effeithiol ac yn rhatach na chelloedd solar. Yn wir, dyma'r math o ynni adnewyddadwy y byddai'n werth i unrhyw un ym Mhrydain ystyried ei ddefnyddio'n bersonol.

## **Anifeiliaid a bwydlysyddiaeth**

Yr anifeiliaid yn y tyddyn - nid yw Canolfan y Dechnoleg Amgen yn hyrwyddo bwydlysyddiaeth, ond yn hytrach **deiet sy'n cyfyngu ar gig**. Maent yno i'w bwyta ac/neu i gynhyrchu wyau a llaeth.

## **Bwyd**

Mae nifer dda o ddisgyblion heb wybod o ble daw y bwyd maent yn ei fwyta, beth sy'n medru tyfu ble ac ym mha dymor. Mae amrywiaeth mor helaeth o ffrwythau a llysiau yn cael eu mewnfario drwy'r flwyddyn fel eu bod wedi colli unrhyw ymdeimlad o dreigl y tymhorau. O ganlyniad, nid ydynt yn sylweddoli pa mor bell y bu'n rhaid i'r bwyd deithio a sut y cafodd ei gludo.

## **Materion**

Dyma rai materion pwysig y dylai disgyblion eu deall  
beth yw cynaladwyedd  
beth y gallwn ni ei wneud i wella'r byd o'n cwmpas  
sut y byddwn ni'n blaenoriaethu ein gweithredoedd  
y dyfodol – sut y gallai pethau fod

### **Beth yw cynaladwyedd?**

Mae'r pwnc hwn erbyn hyn yn ymddangos ym meysydd llafur ABCh, Daearyddiaeth Dinasyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg a Gwyddoniaeth oherwydd cydnabyddir ei fod yn fater mor bwysig. Caiff ei gysylltu'n aml â datblygiad ac mae'r term "Addysg Cynaladwyedd" erbyn hyn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Rydym yn cynnig sgysia i grwpiau ysgolion o CA2 i fyny ar ystyr cynaladwyedd. Ymddengys nad yw plant CA2 yn cael fawr o drafferth i ddeall y cysyniad sylfaenol.

### **Beth y gallwn ni ei wneud a sut y byddwn yn blaenoriaethu**

Bydd plant yn dysgu'n fwyaf effeithiol trwy weithredu ac mae llawer o bethau y gallant eu gwneud yn yr ysgol i wella'r amgylchedd. Gallai rhai o'r rhain wneud byd o wahaniaeth, er enghraifft, lleihau nifer y ceir a ddefnyddir i gludo disgyblion a staff i'r ysgol neu geisio dod o hyd i ddulliau o ddefnyddio llai o ynni er mwyn gwresogi'r ysgol. Bydd rhai o'r rhain yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth neu ddim gwahaniaeth o gwbl hyd yn oed i faterion byd-eang ond gallant wneud amgylchfyd lleol yr ysgol yn lle mwy dymunol o bosib. Nid yw ymdrin â sbwriel yn fater sy'n ymwneud â chynaladwyedd, ond gallai fod yn werthfawr i ddisgyblion ddod i arfer â gofalu am yr amgylchfyd o'u cwmpas. Hyderwn y byddant yn symud ymlaen o'r materion dibwys i'r rhai arwyddocaol.

### **Rhagweld y Dyfodol**

Prif nodwedd Canolfan y Dechnoleg Amgen yw ei bod yn cyflwyno posibilïadau cadarnhaol gogyfer â'r dyfodol. Mae'n bwysig bod disgyblion yn deall y problemau amgylcheddol ond mae'n hanfodol nad ydynt yn mynd i deimlo'n anobeithiol ac yn aneffeithiol. "Cynllunio gwell dyfodol - rhywbeth i'w drafod ar y ffordd adref" yw teitl un o'n taflenni gwaith.

Nid yw Canolfan y Dechnoleg Amgen yn lasbrint ar gyfer dyfodol cynaladwy. Nid ydym yn awgrymu y dylai pawb fynd i fyw mewn cymunedau bychain mewn ardaloedd gwledig. Mewn nifer o ffyrdd, ni fyddai hynny o bosib, yn gam cynaladwy oherwydd byddai, yn sicr ddigon, yn cynyddu defnydd o'r car. Ceisio cyflwyno synïadau a thechnolegau a dulliau o wneud pethau y gellir eu cymhwyso i nifer o wahanol sefyllfaoedd lle bônt yn briodol yw swyddogaeth Canolfan y Dechnoleg Amgen.

Mae'r Ganolfan yma i ysbrydoli a chyflwyno gwybodaeth, ac nid i'w hefelychu.

## **Pynciau i'w trin yn yr ysgol cyn neu yn dilyn ymweliad**

### **Ynni**

Beth yw tanwydd ffosil a beth yw effeithiau eu defnyddio  
Sut y byddwn yn defnyddio ynni yn ein bywydau -  
Cludiant  
Gwresogi cartrefi  
Trydan yn ein cartrefi  
Yn yr ysgol  
Cynhyrchu'r pethau y byddwn yn eu bwyta

### **Difrod amgylcheddol**

Sut y byddwn ni'n cynhyrchu CO2  
Yr Effaith T<sup>g</sup> Gwydr  
Newid yn yr hinsawdd  
Gwneud difrod i'r haen osôn - beth sy'n ei achosi a beth yw'r effaith?

### **Bwyd**

O ble y daw bwyd, pa mor bell y cafodd ei gludo  
Sut y daeth atom ni - mewn awyren, llong, lori? / wedi'i rewi?  
Sut y cafodd ei dyfu?

### **Sbwriel**

Pa sbwriel fyddwn ni'n ei gynhyrchu - faint a pha fath?  
Pa gyfleusterau ailgylchu sydd yn yr ardal?  
Pa bethau sydd i'w gweld yn ein tomen sbwriel na ddylen ni fod wedi eu prynu yn y lle cyntaf?

## **Gweithgareddau cyn yr ymweliad**

### **Y Tocyn Bwyd lleiaf niweidiol**

Gall disgyblion gynllunio'u tocyn bwyd er mwyn

1] cynhyrchu cyn lleied â phosib o sbwriel

blychau brechdanau a photeli diodydd y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro

dim ffoil alwminiwm, *clingfilm* na bagiau plastig

dim pecynnau byrbrydau bychain sydd wedi eu prosesu

mae bagiau papur yn iawn - gellir eu gosod ar y domen gompost

2] cynnwys bwydydd sydd wedi eu cludo dros gyn lleied o filltiroedd â phosib

rhestru beth sydd ganddynt yn eu tocyn bwyd fel arfer a darganfod pa mor bell y byddai'r bwyd wedi teithio

trafod pa fwydydd sydd wedi eu cludo dros gyn lleied o filltiroedd â phosib y gallent eu bwyta

trafod pa fwydydd sydd wedi teithio milltiroedd lawer y byddai'n rhesymol iddynt eu cynnwys

### **Archwilio eich system wresogi**

Beth sy'n gwresogi eich cartref? Os nad ydych yn gwybod, yna ewch o gwmpas i edrych.

Oes rheiddiaduron yn y tŷ?

Os felly, bydd gennych foeler sy'n llosgi tanwydd er mwyn cynhesu'r dŵr sy'n cylchredeg o un rheiddiadur i'r llall.

Pa danwydd sy'n cael ei losgi yn y boeler? (Gofynnwch i'ch rhieni os nad yw'r ateb yn amlwg).

Dylai fod yna thermostat yn rheoli'r tymheredd.

Ceisiwch ddod o hyd iddo er mwyn cael golwg arno.

Gofynnwch i'ch rhieni esbonio beth mae'r thermostat yn ei wneud a sut y byddwch chi'n ei ddefnyddio.

Ar ba dymheredd mae'r thermostat wedi ei osod?

Mae'n bosib bod thermostat ar bob rheiddiadur.

Ewch i gael cipolwg a nodwch dymheredd pob un.

Os nad oes gennych reiddiaduron, bydd gennych danau.

Pa fath danau ydyn nhw?

Pa danwydd sy'n cael ei losgi?

Ym mha ystafelloedd mae'r tanau?

Os mai tanau trydan sydd gennych, bydd faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio gan bob un wedi ei nodi ar y cefn neu o dan y tân. Caiff hyn ei ddangos fel watiau (W) neu gilowatau (kW).

A yw'r tŷ fyth yn gynhesach nag sydd angen iddo fod?

### **I ble bydd y gwres yn dianc?**

Gall gwres ddianc trwy fylchau o amgylch drysau sy'n arwain i'r tu allan, ffenestri neu hatshus llofft, trwy ddrysau cathod, blychau llythyron, twll y clo, rhwng estyll, i fyny hen simneiau a weithiau drwy bob math o leoedd rhyfedd.

Ewch o gwmpas eich cartref gan chwilio am ddrafftiau ym mhob un o'r manau hyn.

Nodwch ble maen nhw a dywedwch wrth eich rhieni sut y gallen nhw wneud rhywbeth yn ei gylch.

Gofynnwch i'ch rhieni os oes deunydd insiwleiddio yn y llofft, pa mor drwchus yw'r deunydd a beth yw'r deunydd.

A yw'r llenni'n drwchus neu'n denau? Ydyn nhw'n ffitio'n glòs wrth y ffenestr fel eu bod yn cadw'r gwres i mewn?

### **Arbed trydan**

Ewch o amgylch gan sylwi ar y bylbiau trydan.

A oes yna rai bylbiau ynni-isel? Sawl un?

A oes goleuadau lle mae eu hangen?

Pa ddyfeisiadau trydan sy'n cael eu gadael ymlaen pan na fyddan nhw'n cael eu defnyddio?

## **Yr ysgol yn camu ymlaen tuag at gynladwyedd**

Arbed ynni (ac arian) yn yr ysgol.

Mae defnyddiau cynghorol ar gael oddi wrth BRECSU (01923 664258).

Mae cynllun o'r enw *School Energy* yn bod a gellir cael grantiau trwy'r cynllun hwn.

Cysylltwch â *CREATE* (01942 322271) ynglŷn â hyn ac am fanylion am grantiau er mwyn arbed ynni golau.

Lleihau'r defnydd o geir yn ôl a blaen o'r ysgol

Cysylltwch â *Sustrans* am fanylion am *Safe routes to schools* (0117 929 0888).

Datblygu tir yr ysgol

Cysylltwch â *Learning Through Landscapes* (01962 846258)

Cyffredinol – mae gan Ysgolion Eco gynllun sy'n cynnwys gwahanol agweddau (01942 824620)

Neu, dewch â grŵp i aros ar gwrs preswyl yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen a chewch archwilio sut y gallech newid eich ysgol.

## **Gweithdai dilynol ar ynni adnewyddadwy**

Os am wneud modelau, defnyddiwch gyhoeddiadau Canolfan y Dechnoleg Amgen - Arweiniad Athrawon i Ynni

Gwynt, Ynni Dŵr, Trydan Solar a Systemau Solar sy'n Cynhesu Dŵr

yngghyd â phecynnau Canolfan y Dechnoleg Amgen ar ynni gwynt a thrydan solar (gweler y daflen Adnoddau Addysgol am fanylion)

Ar gyfer CA2 - *Teaching About Energy* (cyhoeddwyd gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen a chwmni cyhoeddi Southgate)

Er mwyn adeiladu melin wynt maint go iawn a system solar sy'n cynhesu dŵr - *Energy post 16*

Mae'r uchod i gyd ar gael trwy archeb bost oddi wrth Ganolfan y Dechnoleg Amgen ar 01654 705959